# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cwmbran House**

**Cwmbran House**
**Heol Pum Loc**
**Cwmbrân**
**NP44 1AP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cwmbran House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Mehefin 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yng nghartref Cwmbran House yn hapus ac yn byw bywydau boddhaus. Mae'r gweithwyr gofal ymroddedig yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu trin ag urddas a pharch. Darperir gofal a chymorth mewn ffordd wedi'i phersonoli ac yn unol â'r cynlluniau personol. Mae'r bobl yn hapus ac yn iach ac maent yn cael y cymorth cywir i gynnal eu llesiant corfforol. Disgwylir y bydd cynlluniau personol gwell, a fydd yn canolbwyntio ar lesiant corfforol, yn cael eu datblygu erbyn canol 2024. Caiff digon o weithgareddau hamdden eu cynnal ac maent yn amrywiol. Mae cydgysylltydd gweithgareddau a benodwyd yn ddiweddar wedi datblygu rhaglen weithgareddau well er mwyn helpu i gadw'r bobl yn brysur. Caiff y bobl eu hannog i gynnal cydberthnasau personol agos â theulu a ffrindiau, a all ymweld â'r gwasanaeth ar unrhyw adeg.

Mae'r bobl yn ddiogel ar y cyfan. Mae gweithwyr gofal a gafodd eu recriwtio mewn ffordd addas ac sy'n cael eu cefnogi'n dda yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Mae angen cryfhau'r broses rheoli meddyginiaeth er mwyn sicrhau llesiant y bobl.

Mae trefniadau llywodraethu da yn ategu gwasanaeth a gaiff ei redeg yn ddidrafferth ac yn effeithiol. Mae arweinydd clinigol, a benodwyd yn ddiweddar, wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaeth. Mae systemau sicrhau ansawdd gwell yn helpu i nodi tueddiadau a meysydd i'w gwella. Disgwylir y bydd sawl cynllun gwella cynhwysfawr yn cael ei roi ar waith er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach yn 2024. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adnabod y bobl yn dda ac yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Caiff cofnodion o ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol â'r cartref eu cwblhau yn unol â'r rheoliadau.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn cael cynnig dewis yn gyson. Mae'r bobl yn treulio eu hamser lle bynnag yr hoffent yn y cartref ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae croeso i'r bobl ymlacio yn eu hystafelloedd gwely eu hunain neu mewn ardaloedd tawel yn y cartref. Yn yr un modd, gall y bobl ddewis cymdeithasu ag eraill mewn ardaloedd cymunedol prysur. Mae'r gweithwyr gofal yn gofyn i'r bobl sut yr hoffent gyflwyno eu hunain, h.y., sut yr hoffent wneud eu gwallt a pha ddillad yr hoffent eu gwisgo. Gellir dibynnu ar y gweithwyr gofal i gynnig dewis o ddiodydd, prydau bwyd a gweithgareddau i'r bobl.

Mae'r bobl yn cael gofal mewn modd urddasol. Mae'r gweithwyr gofal yn addasu eu dull o gyfathrebu a darparu gofal er mwyn diwallu anghenion unigol. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n eu helpu i gyflawni canlyniadau llesiant ac yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn. Anogir teuluoedd a ffrindiau i ymweld â'r gwasanaeth unrhyw bryd er mwyn hyrwyddo cydberthnasau'r bobl. Caiff anghenion ysbrydol y bobl eu diwallu drwy wasanaethau eglwys mewnol. Er mwyn hyrwyddo presenoldeb cymunedol, mae'r gwasanaeth yn croesawu preswylwyr o'r ardal leol i gymryd rhan mewn digwyddiadau bore coffi rheolaidd. Mae cyfarfodydd preswylwyr a theuluoedd rheolaidd yn sicrhau y caiff lleisiau'r bobl eu clywed. Defnyddir yr adborth o'r cyfarfodydd hyn i wella llesiant y bobl. Dywedodd ymwelwyr â'r cartref wrthym fod y gwasanaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i wella llesiant y bobl ers ein harolygiad blaenorol.

Caiff llesiant corfforol y bobl ei hybu drwy ddogfennaeth cynllunio gofal well. Mae'r bobl yn iach ac yn cael y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl. Mae'n ymddangos bod y bobl yn hapus ar y cyfan. Caiff llesiant emosiynol ei hybu drwy'r amgylchedd cartrefol a rhaglen weithgareddau well. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau personol yn cael eu llunio ar y cyd â'r bobl a'u teuluoedd bob amser, ac nid ydynt yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Disgwylir y bydd cynlluniau newydd a gwell sy'n canolbwyntio ar lesiant y bobl yn cael eu datblygu ar gyfer pob unigolyn erbyn canol 2024. Bydd y rhain yn cynnwys canlyniadau llesiant unigol er mwyn gwella llesiant cyffredinol y bobl ymhellach.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth ar y cyfan. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n addas ac maent yn gwybod sut i godi pryder diogelu. Caiff y bobl eu hannog i godi unrhyw bryderon a chwynion. Mae gwybodaeth am sut i wneud cwyn i'w gweld o amgylch y cartref. Mae'r darparwr wrthi'n datblygu poster cwynion sy'n addas i'r darllenydd ar gyfer pobl sydd ag anghenion cyfathrebu gwahanol. Mae angen cryfhau'r broses rheoli meddyginiaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Gwelsom fod gwendidau yn y broses o roi a thrin meddyginiaeth a bod hyn wedi effeithio ar lesiant y bobl. Rydym yn cydnabod bod camau gweithredu eisoes wedi'u cymryd i liniaru gwallau pellach yn ymwneud â meddyginiaeth cyn ein harolygiad.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn trin y bobl mewn ffordd garedig ac yn dangos dealltwriaeth glir o'u hanghenion unigol. Darperir gofal mewn ffordd urddasol a charedig. Mae'r gweithwyr gofal yn addasu eu dull o roi gofal yn unol â chyflwr emosiynol y bobl ac maent yn defnyddio gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i liniaru unrhyw bryderon. Mae defnydd da o gymorth cyffyrddol, megis dal dwylo, yn rhoi ymdeimlad o gysur a chynhesrwydd i'r bobl. Gwelsom y gweithwyr gofal yn cymryd eu hamser i ymgysylltu â'r bobl mewn ffordd ystyrlon ac ar sail un i un, er enghraifft drwy sgwrsio am atgofion a steilio eu gwallt. Gwelsom y gweithwyr gofal yn cynnwys y bobl mewn gweithgareddau grŵp ysgafn a hwyliog hefyd. Cawsom adborth cadarnhaol am y gweithwyr gofal. Dywedodd un person wrthym '*I feel well looked after. We have some really lovely staff here. They care about us.'* Dywedodd ymwelydd â'r gwasanaeth wrthym, '*Staff do not appear rushed and spend time with people.'* Dywedodd ymwelydd arall wrthym fod ansawdd y gofal wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf.

Mae cydgysylltydd gweithgareddau dynodedig yn trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau ar gyfer y bobl, megis gemau bwrdd, sesiynau celf a chrefft a sesiynau cyd-ganu. Mae amrywiaeth o berfformwyr yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i ddarparu adloniant. Y gobaith yw y bydd prynu bws mini newydd yn golygu y bydd modd cynnal rhagor o weithgareddau yn y gymuned yn ystod 2024. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael a dywedodd, *'They keep us busy here'*. Dywedodd un ymwelydd â'r cartref fod digonedd o weithgareddau yn cael eu cynnal, a dywedodd un arall wrthym, *'People always appear stimulated.'*

Mae cynlluniau personol y bobl wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Mae'r arweinydd clinigol newydd wedi sicrhau bod y cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion iechyd y bobl yn well. Mae asesiadau iechyd rheolaidd yn helpu i nodi unrhyw newidiadau yn anghenion iechyd y bobl, a threfnir cymorth clinigol yn brydlon pan fo angen. Mae asesiadau risg yn nodi'r risgiau cysylltiedig ac yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth wrthym, *'I have no concerns from a clinical perspective',* a chadarnhaodd fod y cynlluniau personol yn cael eu diweddaru yn dilyn adborth clinigol bob amser.

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud rhywfaint o ymdrech i sicrhau bod y cynlluniau personol yn canolbwyntio ar lesiant emosiynol a chanlyniadau'r bobl. Mae angen gwneud rhagor o welliannau er mwyn sicrhau bod yr holl gynlluniau personol yn cael eu llunio ar y cyd â'r bobl a'u teuluoedd er mwyn iddynt allu cynnwys yr hyn sy'n bwysig iddynt. Rydym yn cydnabod bod y darparwr eisoes wedi nodi bod angen gwella'r maes hwn. Bydd system cynllunio gofal electronig newydd yn cael ei chyflwyno ddechrau 2024 a fydd yn canolbwyntio ar lesiant. Mae cynllun pellach i ddatblygu nodau llesiant unigol ar gyfer pob person ar y gweill hefyd.

Mae'r broses rheoli meddyginiaeth wedi gwella ers ein harolygiad blaenorol. Fodd bynnag, mae angen i'r arferion ar gyfer rhoi a thrin meddyginiaeth yn ddiogel fod yn fwy cadarn er mwyn diogelu'r bobl yn effeithiol. Rydym yn cydnabod bod y darparwr wedi cymryd camau i liniaru'r risg o wallau yn ymwneud â meddyginiaeth drwy roi trefniadau ar waith ar gyfer cyfrif eitemau stoc bob dydd. Mae'r arweinydd clinigol newydd wedi datblygu cynllun gwella er mwyn unioni materion eraill a nodwyd gennym.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn addas i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac mae'n cyfrannu at eu llesiant. Mae addasiadau perthnasol a'r defnydd o gymhorthion yn hyrwyddo annibyniaeth y bobl. Mae'r gwasanaeth ar un llawr gyda choridorau llydan ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r cartref wedi'i rannu'n dair cymuned wahanol; mae pob cymuned yn gartrefol, wedi'i haddurno'n dda ac mae'r dodrefn mewn cyflwr da. Gall y bobl fynd i'w cymunedau'n rhwydd a mwynhau'r ardaloedd cymunedol prysur. Gall y bobl ddefnyddio salon gwallt a gallant ymlacio mewn cilfachau â themâu ac ardaloedd eistedd tawel o amgylch y gwasanaeth. Mae'r ardaloedd cymunedol yn lân ac yn daclus. Caiff yr ardaloedd awyr agored eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn ddiogel.

Gall y bobl addurno eu hystafelloedd gwely er mwyn adlewyrchu eu chwaeth a'u dewisiadau. Gwelsom fod ystafelloedd gwely'r bobl wedi cael eu personoli, gyda phethau fel trugareddau personol, gwaith celf a ffotograffau.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi i mewn wrth gyrraedd y cartref. Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r trefniadau iechyd a diogelwch yn dda. Caiff ymarferion tân ac archwiliadau iechyd a diogelwch mewnol eu cynnal yn rheolaidd. Cynhelir gwiriadau cynnal a chadw ar gyfarpar perthnasol. Mae tystysgrifau iechyd a diogelwch yn dangos bod archwiliadau arferol wedi cael eu cynnal gan asiantaethau allanol. Gwelsom y gweithwyr gofal yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol. Mae'r amserlenni glanhau a chynnal a chadw effeithiol yn hybu arferion hylan ac yn lleihau'r risg o haint.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Rhoddir gwybodaeth gywir i'r bobl am y gwasanaeth. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir, ac mae hyn yn helpu'r bobl i ddewis cartref a all ddiwallu eu hanghenion. Mae asesiad cyn derbyn manwl yn pennu p'un a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion person yn ddiogel ai peidio. Mae polisïau allweddol yn ategu arferion diogel a chyson.

Mae’r bobl yn cael budd o’r arweinyddiaeth a'r trefniadau llywodraethu da sydd ar waith. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd yn dda. Mae'r archwiliadau sicrhau ansawdd gwell yn helpu i nodi meysydd i'w gwella. Ni chaiff canlyniadau camau gwella a gymerir eu dogfennu bob amser. Cawsom sicrwydd y byddai'r gwasanaeth yn dogfennu'r camau gwella hyn yn y dyfodol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n gyfarwydd â'r bobl sy'n byw yno. Gofynnir am adborth gan y bobl, eu teuluoedd a'r gweithwyr gofal er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn datblygu ac yn gwella'n barhaus. Caiff canfyddiadau o ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol eu cofnodi'n unol â'r rheoliadau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfathrebu'n agored ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac mae'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau hysbysadwy yn unol â'r rheoliadau.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal a gaiff eu gwerthfawrogi gan ddarparwr y gwasanaeth. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn ymgymryd â chyfnod prawf manwl cyn cael eu cymeradwyo ar gyfer y rôl. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â hyfforddiant y gweithwyr gofal er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu rolau'n ddiogel. Rhoddodd aelodau'r tîm rheoli sicrwydd i ni eu bod yn blaenoriaethu camau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wedi cael eu sesiynau goruchwylio diweddaraf. Bydd matrics goruchwylio gwell yn cael ei ddatblygu erbyn dechrau 2024 er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr gofal yn cael ei oruchwylio yn unol â'r gofynion rheoliadol. Rhoddodd pob un o'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *‘I’ve had amazing support, especially from the team leaders. They are always checking if I am OK…It’s nice when you feel you have support. I feel valued.’* Dywedodd gweithiwr gofal arall wrthym, *‘I love my job. I’ve never had any problems. I’ve always had support off my manager. I feel supported. Management are approachable.’*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 6 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, gan roi sylw i'r Datganiad o Ddiben. | Cyflawnwyd |
| 21 | Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn cynnwys canlyniadau er mwyn gwella llesiant y bobl. | Newydd |
| 58 | Mae angen i'r gweithdrefnau meddyginiaeth fod yn fwy cadarn er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y bobl. | Heb Gyflawni |
| 25 | 25(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unigolion yn cael eu trin ag urddas a pharch. | Cyflawnwyd |
| 34 | Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod nifer digonol o staff sydd â'r hyfforddiant a'r cymhwysedd addas yn gweithio yn y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/02/2024